


# Gweithiwr Cymdeithasol – Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd

Graddfa: G06 £36,648 - £39,186

Llawn Amser 37 awr

Lleoliad: Stryd y Capel, Y Fflint

Codiad Cyflog 2024 yn yr Arfaeth

Mae’r Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd yn darparu ymyraethau dwys a strwythuredig i blant a theuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan gam-ddefnyddio sylweddau/alcohol, heriau iechyd meddwl ac effaith cam-drin domestig.

Mae’r swydd hon yn cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu ffordd unigryw o weithio i gyd-gynhyrchu cynlluniau penodol i deuluoedd. Gan ddefnyddio ymyraethau penodol o gyfweld ysgogiadol a therapi sy’n canolbwyntio ar atebion, mae’r swydd yn darparu rhaglen glir a phenodol o ymyrraeth newid.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae’r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o’r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014). Mae’r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar angerdd a phenderfyniad i fodloni gofynion y swydd hon. Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.

Gan fod y swydd hon yn arwain at gyswllt rheolaidd â phlant a/neu oedolion diamddiffyn, bydd yn rhaid i’r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:
Peter Robson, Rheolwr Gwasanaeth: peter.robson@flintshire.gov.uk